Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**3 Medi 2021**

**Ymateb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i**

**Gyfrinachedd a rennir: Crynodeb o'r ffordd y mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn defnyddio cudd-wybodaeth sensitif**

Mae'r adroddiad hwn, yn bennaf, yn darparu argymhellion ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Fodd bynnag, rwyf wedi ceisio sicrwydd gan Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â'i barodrwydd i ymateb i'r elfennau o'r ddau argymhelliad lle mae Prif Gwnstabliaid yn cael eu cyfeirio. Ceir y sicrwydd hwnnw isod.

**Argymhelliad 8**

> *Erbyn 31 Rhagfyr 2021, dylai arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu roi arweiniad ynghylch caniatâd mynediad mewn perthynas â chudd-wybodaeth sensitif. Dylai Prif Gwnstabliaid gydymffurfio â'r arweiniad hwnnw.*

Unwaith y darperir canllawiau penodol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu mewn perthynas â chaniatâd mynediad o ran cudd-wybodaeth sensitif ar Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, bydd hyn yn cael ei gynnwys o fewn yr Heddlu. Bydd Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu, sy'n gyfrifol am Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, yn goruchwylio hyn.

**Argymhelliad 9**

> *Erbyn 1 Gorffennaf 2022, dylai arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer troseddau difrifol a throseddu trefnedig osod safonau i sicrhau bod gan bob uned cudd-wybodaeth sensitif ranbarthol fynediad llawn a pharod at holl systemau cudd-wybodaeth pob heddlu yn ei rhanbarth. Dylai Prif Gwnstabliaid gydymffurfio â'r safonau hynny.*

Yn y gorffennol, mae Ditectif Uwch-arolygydd Heddlu Dyfed-Powys sydd â gofal dros Swyddfa Chudd-wybodaeth yr Heddlu wedi rheoli'r Uned Cudd-wybodaeth Sensitif yn Uned Ranbarthol Troseddu Trefnedig De Cymru, TARIAN.Y mae wedi cadarnhau bod gan TARIAN fynediad at systemau Heddlu Dyfed-Powys ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, bydd angen ailymweld â hyn wrth i'r heddlu symud i'r System Rheoli Cofnodion Niche flwyddyn nesaf, a bydd y tîm gweithredu prosiect yn ei ystyried.